**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1089
Ein cyf/Our ref VG/09363/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

22 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 30 Tachwedd am ddeiseb ar gyfer sicrhau bod cyflogau'r GIG yn gyson â'r lefel chwyddiant.

Rwy'n cydnabod yr heriau a'r pwysau anferth sydd ar holl aelodau ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ymroddedig yma yng Nghymru, a hynny drwy gydol yr amser, ond yn enwedig yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Penderfyniad gan Lywodraeth y DU oedd gweithredu polisi cyni yn 2010 mewn ymateb i'r argyfwng ariannol, gan rewi cyflogau'r sector cyhoeddus. Gan fod Llywodraeth y DU wedi gweithredu yn y modd hwn, ni chawsom ni, fel Llywodraeth Cymru, unrhyw gyllid canlyniadol i dalu am godiadau cyflog, o dan fformiwla Barnet. O ganlyniad, ni fyddai wedi bod yn opsiwn ariannol ymarferol i gyllido cynnydd mor fawr heb gael cyllid canolog gan Lywodraeth y DU.

Yn 2018, cafodd y cytundeb tair blynedd presennol ar gyfer staff yr agenda newid yn y GIG, ei wneud mewn partneriaeth â'r cyflogwyr a'r undebau llafur. Mae'r cytundeb hwn yn cynnwys codiadau cyflog ar gyfer cyfnod o dair blynedd, cyflogau cychwynnol uwch, cael gwared ar bwyntiau cyflog sy'n gorgyffwrdd, a chyflwyno graddfeydd cyflog byrrach. O ran y staff y mae gweithgarwch y corff adolygu cyflogau meddygon a deintyddion yn berthnasol iddynt, gweithredais ei argymhelliad eleni'n llawn drwy weithredu codiad cyflog o 2.8%.

Wrth i'r cytundeb cyflogau tair blynedd ddod i ben, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chynrychiolwyr yr undebau a chyflogwyr y GIG, drwy broses y corff annibynnol sy'n adolygu cyflogau'r GIG, er mwyn sicrhau bod y pecyn gwobrwyo gorau posibl yn cael ei gynnig. Rwyf wedi gofyn bod y cylch adolygu cyflogau'n cael ei ddwyn ymlaen i'w gynnal cyn gynted ag y bo modd. Serch hynny, Llywodraeth y DU sy'n pennu'r amserlenni, ac mae angen cymorth y Llywodraeth honno i gyllido unrhyw godiadau yn y setliad cyflog.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services